Lloyd & Gravell Ltd

## Teitl swydd:

# Gwaith Plastrio a Gosod Brics

## Rôl:

Fe geiff ymgeiswyr llwyddiannus y cyfle i ennill arian tra'n dysgu a disgwylir iddynt fynychu coleg i gyflawni ardystiad yn ogystal â dysgu sgiliau ymarferol ar y safle o dan oruchwyliaeth ein tîmau Crefft. Bydd angen i ymgeiswyr wneud cais am eu masnach ddewisol o naill ai Plastrio neu Bricsio yn Ngholeg Sir Gar cyn cychwyn y flwyddyn academaidd ym mis Medi, 2026  Dilynwch y ddolen i weld proffil y swydd.

## Pwy ydyn ni a'r hyn a wnawn ni:

Rydym yn gwmni teuluol sydd â gwreiddiau Cymreig wrth galon popeth a wnawn. Fel un o gwmniau adeiladu blaenllaw Cymru a chontractwr sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol, rydym yn adeiladu, adnewyddu ac atgyweirio adeiladau ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae pobl yn adnabod Lloyd & Gravell am lawer mwy nac ansawdd ein gwaith yn unig. Mae'n nhw'n ein hadnabod ni am bwy ydyn ni a beth rydym ni'n ei wneud i sicrhau fod eu prosiectau yn llwyddiant. Er ein bod yn codi adeiladau rhagorol, rydym hefyd yn gweithio'n galed i gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, yn cyfrannu'n weithredol i gymunedau ac yn gadael buddion parhaus yn ogystal ag adeilad rhagorol.

## Gweithio i Lloyd & Gravell

Rydym am i bobl fwynhau gweithio i'n cwmni a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod yn aelod gwerthfawr o dîm a gwybod i sicrwydd bod y cwmni bob amser yn meddwl am eu lles. I gefnogi hyn, mae ein telerau ac amodau cyflogaeth yn gystadleuol.

**Rhan o athroniaeth ein cwmni yw Hyfforddi i Gadw Mae hyn yn cynnwys:**

- Pecynnau recriwtio a chadw cystadleuol
- Rhaglen hyfforddi ar draws y cwmni
- Cyfleoedd dilyniant gyrfa

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n teimlo eu bod yn bodloni gofynion ein swyddi gwag ni waeth beth fo'u hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oedran, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd. a mynegiant rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal, gwerthfawrogi amrywiaeth a mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol ac yn ymdrechu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd popeth a wnawn.

## Y cam nesaf

Os oes diddordeb gennych ymuno â'n tîm, a wnewch anfon copi o'ch CV i Amanda Jones yn 43 Myrtle Hill, Ponthenri, Llanelli, Sir Gar. SA15 5PD neu e-bostio amanda@lloydandgravell.co.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn CV's yw Dydd Mercher, y 24ain o Fehefin, 2026.